Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

# Adroddiad Ymgysylltu

Defnyddio Gwasanaethau'r GIG yn
CEF Prescoed a Brynbuga

Mawrth 2023



# Cynnwys

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad a chefndir | 3 |
| Adborth a gafwyd | 3 |
| CEF Prescoed | 4 |
| CEF Brynbuga | 7 |
| Casgliad | 14 |
| Argymhellion | 14 |
| Diolchiadau | 15 |
| Ynglŷn â Chynghorau Iechyd Cymuned | 16 |
| Manylion cyswllt | 16 |
| Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 17 |
| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth | 21 |

# Cyflwyniad a chefndir

Mae Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (CICAB) yn sefydliad statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau pobl yng Ngwent. Ein nod yw annog pobl i gymryd rhan weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar y ffordd y caiff gofal iechyd ei ddarparu.

Fel rhan o'n cynllun blynyddol, roeddem am ddeall profiadau pobl o ddefnyddio gwasanaethau'r GIG yn ystod eu cyfnod yng Ngharchar Ei Fawrhydi (CEF) Prescoed a Brynbuga.

Er mwyn gwneud hyn, gwnaethom gydweithio â Thîm Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Crëwyd arolwg addas a lluniwyd "pecyn arolwg", a oedd yn cynnwys:

- Arolwg (Cymraeg a Saesneg)
- Fersiwn hawdd ei darllen o'r arolwg (Cymraeg a Saesneg)
- Copi o'n hysbysiad preifatrwydd (Cymraeg a Saesneg)

Aethpwyd â'r pecynnau arolwg i'r ddau garchar, a chawsant eu dosbarthu i'r rhai a oedd am roi adborth i ni.

Roedd y pecynnau arolwg ar gael ar y ddau safle rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023.

Mae'r data crai a gasglwyd drwy'r arolwg hwn wedi'u rhannu â'r Tîm Iechyd y Cyhoedd er mwyn ei alluogi i gwblhau ei asesiad o anghenion.

# Adborth a gafwyd

Cawsom **104** o ymatebion i'n harolwg, gyda dau ohonynt yn Gymraeg.



# CEF Prescoed

Cawsom **9** ymateb gan bobl yn CEF Prescoed.

## Gofal Sylfaenol ac Eilaidd

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym ei bod hi'n hawdd defnyddio'r gwasanaethau gofal sylfaenol canlynol:

- Gwasanaethau dan arweiniad Meddygon Teulu
- Gwasanaethau dan arweiniad Nyrsys
- Gwasanaethau dan arweiniad Cynorthwywyr Gofal Iechyd
- Optegwyr
- Deintyddion
- Fferyllfeydd/Gwasanaethau Presgripsiwn
- Sgrinio ac Imiwneiddiadau
- Cymorth Iechyd Meddwl Parhaus

Yn yr un modd, dywedodd pobl ei bod hi'n hawdd defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol. Fodd bynnag, dywedodd dau berson wrthym eu bod wedi wynebu oedi wrth geisio defnyddio gwasanaethau'r GIG, er enghraifft amseroedd aros hir a gorfod aros am atgyfeiriad newydd am driniaeth neu apwyntiad. Dywedodd un person wrthym ei fod wedi bod yn aros i weld podiatregydd ers 18 mis.

Pan ofynnwyd i bobl yn CEF Prescoed roi eu barn am wasanaethau'r GIG y maent yn eu defnyddio, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn "dda iawn," "da," neu'n "foddhaol." Ond dywedodd un person fod y gwasanaeth ffisiotherapi yn "wael."

## Lles

Pan ofynnwyd, *"Sut y byddech yn graddio'r gwasanaethau canlynol a ddarperir gan y carchar (gweithgarwch corfforol/ymarfer corff, bwyd a'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu)?"* dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl fod y gwasanaethau hyn yn *"foddhaol".* Dywedodd tri pherson fod y bwyd yn *"wael iawn."*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl yn CEF Prescoed fod eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl yn *"iawn"* ar hyn o bryd. Dywedodd dau berson fod eu hiechyd corfforol yn *"wael,"* a dywedodd un person fod ei iechyd meddwl yn *"wael."*

Roedd yn galonogol darllen bod pobl yn CEF Prescoed yn teimlo bod y gwasanaethau a ddarperir gan y carchar yn cefnogi eu hanghenion iechyd a lles.

Gwnaethom ofyn, *"Pa ymyriadau iechyd corfforol a lles sy'n cael eu darparu yn eich carchar ar hyn o bryd?"*

Gwnaethom roi'r opsiynau canlynol:

- Cefnogaeth gan gymheiriaid
- Ymwybyddiaeth ofalgar
- Deiet a ffordd o fyw
- Chwaraeon/gweithgarwch corfforol
- Rhoi'r gorau i smygu
- Cymorth camddefnyddio sylweddau

Cawsom ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn, a allai awgrymu fod pobl yn CEF Prescoed yn ansicr pa ymyriadau iechyd a lles corfforol sydd ar gael iddynt.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl yn defnyddio'r ymyriadau iechyd a lles corfforol. Fodd bynnag, rhoddodd y rhai a oedd yn gwneud hynny yr adborth canlynol:

| | Heb ddefnyddio | Gwael iawn | Gwael | Boddhaol | Da | Da iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefnogaeth gan gymheiriaid** | 3 | 2 | | | | 1 |
| **Ymwybyddiaeth ofalgar** | 4 | | 2 | | | |
| **Deiet a ffordd o fyw** | 3 | 2 | | | | 1 |
| **Chwaraeon/gweithgarwch corfforol** | 3 | | | 3 | | |
| **Rhoi'r gorau i smygu** | 4 | | 2 | | | |
| **Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau** | 4 | 2 | | | | |

Roeddem am ddeall a oedd unrhyw resymau a fyddai'n atal pobl rhag gallu gofalu am eu hiechyd a'u lles corfforol. Nododd pobl yn CEF Prescoed y canlynol:

- Nid yw gweithgareddau neu gefnogaeth yn cael eu cynllunio ar amser sy'n gyfleus i mi
- Dim digon o offer
- Dim digon o ofod y tu mewn neu'r tu allan
- Dim digon o staff ar gael i oruchwylio
- Cydberthnasau gwael rhwng y bobl a'r staff sy'n cynnal y gweithgareddau
- Dim digon o arian i'r staff gynnal gweithgareddau neu brynu offer

## Cyfathrebu

Dywedodd pawb a lenwodd ein harolwg yn CEF Prescoed eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith wrth ddefnyddio gwasanaethau'r GIG. Yn ystod apwyntiadau, teimlai pobl fod eu hanghenion cyfathrebu hefyd yn cael eu diwallu.

Teimlai pobl eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

## Sylwadau

Gwnaethom ofyn, *"Yn eich barn chi, a oes unrhyw beth y mae'r gwasanaeth carchardai yn ei wneud yn arbennig o dda wrth eich helpu i ddefnyddio gwasanaethau'r GIG?"*

*"Staff cymwynasgar a hawdd mynd atynt. Gwasanaeth hygyrch, ac yn well na'r hyn sydd ar gael y tu allan fel arfer"*

*"Na"*

*"Mae'r GIG yn wych"*

*"Na"*

*"Mae'r holl wasanaethau iechyd a lles yn cael eu rhedeg/darparu yn effeithlon"*

*"Mae pawb yn yr adran gofal iechyd yn CEF Prescoed yn wych, yn gymwynasgar, yn gwrtais ac yn gwneud popeth posibl i helpu"*

*"Mae gwasanaeth y GIG yn wych"*

*"Mae'r system yn Prescoed gweithio'n dda i mi a fy anghenion!"*

Gwnaethom hefyd ofyn, *"Ydych chi'n teimlo bod unrhyw beth a allai fod yn well wrth eich helpu i ddefnyddio gwasanaethau'r GIG?"*

*"1) Mwy o rybudd ar gyfer apwyntiadau, yn enwedig ar gyfer gweithwyr allanol. 2) Ffordd haws o gasglu presgripsiynau, neu eu gadael mewn loceri efallai?"*

*"Alla i ddim meddwl am ddim"*

# CEF Brynbuga

Cawsom **95** o ymatebion gan bobl yn CEF Brynbuga

## Gofal Sylfaenol ac Eilaidd

Gwnaethom ofyn i bobl pa mor hawdd ydoedd iddynt ddefnyddio Gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn ystod eu cyfnod yn y carchar. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl wrthym ei bod yn *"hawdd iawn*," neu'n *"hawdd"* defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Nid oedd llawer o bobl yn CEF Brynbuga wedi defnyddio Gwasanaethau Gofal Eilaidd (yn yr ysbyty). Fodd bynnag, o blith y rheini a oedd wedi'u defnyddio, gwnaethant nodi eu bod wedi defnyddio'r gwasanaethau canlynol:

- Ffisiotherapi
- Podiatreg
- Cardioleg
- Gwasanaethau Diabetig
- Nam ar y Synhwyrau
- Resbiradol
- Niwrolegol
- Gwasanaethau Rheoli Poen
- Gwasanaethau Canser

Roedd eraill hefyd a oedd wedi cael triniaeth gan wasanaethau Trawma ac Orthopaedeg, Radioleg a Gastroenteroleg.

Dywedodd y bobl a oedd wedi defnyddio Gwasanaethau Gofal Eilaidd ei bod hi'n *"hawdd iawn"* neu'n *"hawdd"* defnyddio'r gwasanaethau hyn gan

amlaf. Fodd bynnag, dywedodd pum person wrthym ei bod hi'n *"anodd"* defnyddio'r gwasanaethau hyn, a dywedodd tri pherson ei bod hi'n *"anodd iawn"* eu defnyddio.

Dywedodd pobl yn CEF Brynbuga wrthym eu bod wedi wynebu oedi wrth ddefnyddio gwasanaethau'r GIG, a hynny o ganlyniad i gludiant, amseroedd aros hir a mynediad at driniaeth barhaus. Dywedodd naw person eu bod yn dal i aros am driniaeth/apwyntiadau yr oeddent wedi cael eu hatgyfeirio amdanynt yn flaenorol.

Sylwadau:

*"Ddim wedi cael dyddiad yn fras ar gyfer llawdriniaeth"*

*"Dim oedi wrth gael unrhyw driniaeth neu ofal yn CEF Brynbuga, gwell gofal na'r tu allan i'r system garchardai"*

*"Dalier ati"*

*"Mae'r gofal iechyd yn dda iawn"*

*"Dim problemau mawr"*

*"Mae popeth yn drefnus iawn yn CEF Brynbuga"*

*"Wedi bod yn aros dros 12 mis am atgyfeiriad at y gwasanaeth awdioleg ar gyfer tinitws, ar ôl cael gwybod fy mod yn gymwys i gael cymorth"*

Yn gyffredinol, dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl eu bod wedi cael profiad *"da iawn," "da"* neu *"foddhaol"* o'r gwasanaethau roeddent wedi'u defnyddio. Fodd bynnag, roedd pobl wedi cael profiad *"gwael"* neu *"wael iawn"* wrth ddefnyddio rhai gwasanaethau:

| | **Heb Ddefnyddio** | **Gwael iawn** | **Gwael** | **Boddhaol** | **Da** | **Da iawn** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Iechyd Meddwl Parhaus | 25 | 3 | 3 | 16 | 13 | 16 |
| Gwasanaethau Cwnsela | 51 | | 1 | 2 | 8 | 4 |
| Gwasanaethau dan arweiniad Meddygon Teulu | 10 | | 4 | 9 | 3 | 29 |
| Gwasanaethau dan arweiniad Nyrsys | 31 | 2 | 2 | 5 | 14 | 28 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau dan arweiniad Cynorthwywyr Gofal Iechyd | 46 | | 1 | 3 | 8 | 16 |
| Gwasanaethau Iechyd Rhywiol | 58 | | | 3 | 3 | 3 |
| Sgrinio ac Imiwneiddiadau | 17 | | | 14 | 18 | 25 |
| Optegwyr | 14 | | 8 | 14 | 26 | 22 |
| Deintyddion | 14 | 3 | 5 | 8 | 26 | 30 |
| Fferyllfa/Gwasanaethau Presgripsiwn | 3 | 1 | 1 | 6 | 23 | 53 |
| Ffisiotherapi | 50 | 3 | 2 | 7 | 5 | 2 |
| Podiatreg | 56 | 2 | 1 | 3 | 6 | 2 |
| Cardioleg | 48 | | 3 | 6 | 4 | 8 |
| Gwasanaethau Diabetig | 51 | | 1 | 5 | 8 | 9 |
| Nam Synhwyrol | 53 | 1 | 1 | 5 | 6 | 3 |
| Resbiradol | 48 | 1 | 5 | 4 | 7 | 8 |
| Gwasanaethau niwroleg | 59 | 1 | | 3 | 1 | 2 |
| Gwasanaethau Rheoli Poen | 43 | 5 | 2 | 11 | 3 | 4 |
| Gwasanaethau Canser | 58 | | 1 | 2 | 2 | 3 |
| Camddefnyddio Sylweddau | 56 | | 1 | 7 | 3 | 1 |
| Gofal Lliniarol | 61 | | | 1 | | 2 |

## Lles

Roedd yn galonogol darllen bod y rhan fwyaf o'r bobl yn CEF Brynbuga yn teimlo bod eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl yn *"dda iawn,"* yn *"dda"* neu'n *"foddhaol"*. Fodd bynnag, dywedodd 30 o bobl fod eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl yn *"wael"* neu'n *"wael iawn"*. Ni roddwyd unrhyw wybodaeth bellach.

Gwnaethom ofyn i bobl roi eu barn ar y gwasanaethau canlynol a ddarperir gan y carchar:

| | Heb Ddefnyddio | Gwael iawn | Gwael | Boddhaol | Da | Da iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgarwch corfforol/Ymarfer corff** | 8 | 5 | 11 | 34 | 23 | 9 |
| **Bwyd** | | 27 | 29 | 31 | 4 | 4 |
| **Rhoi'r gorau i smygu** | 35 | 21 | 5 | 14 | 5 | 2 |

Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi o ran eu hanghenion iechyd a lles, felly gwnaethom ofyn *"Yn eich barn chi, ydy'r gwasanaethau a ddarperir gan y carchar yn cefnogi eich anghenion iechyd a lles?"*

Ydy: 65 Nac ydy: 28

Gwnaethom ofyn, *"Pa ymyriadau iechyd corfforol a lles sy'n cael eu darparu yn eich carchar ar hyn o bryd?"*

Gwnaethom roi'r opsiynau canlynol:

- Cefnogaeth gan gymheiriaid
- Ymwybyddiaeth ofalgar
- Deiet a ffordd o fyw
- Chwaraeon/gweithgarwch corfforol
- Rhoi'r gorau i smygu
- Cymorth camddefnyddio sylweddau

Wrth edrych ar yr ymatebion i'r cwestiynau hyn, dewisodd y bobl amrywiaeth o wasanaethau. Mae hyn yn debyg i'r ymatebion a gafwyd gan bobl yn CEF Prescoed. Gallai hyn awgrymu nad yw pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt i gefnogi eu hiechyd a'u lles.

Gwnaethom wedyn ofyn i bobl roi eu barn am eu profiad o **ddefnyddio'r** gwasanaethau hyn:

| | Heb Ddefnyddio | Gwael iawn | Gwael | Boddhaol | Da | Da iawn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cefnogaeth gan gymheiriaid** | 42 | 1 | 2 | 13 | 17 | 11 |
| **Ymwybyddiaeth ofalgar** | 39 | 3 | 4 | 18 | 12 | 1 |
| **Deiet a ffordd o fyw** | 34 | 14 | 8 | 20 | 5 | 1 |
| **Chwaraeon/gweithgarwch corfforol** | 16 | 4 | 11 | 28 | 21 | 7 |
| **Rhoi'r gorau i smygu** | 56 | 9 | 0 | 6 | 6 | 3 |
| **Camddefnyddio sylweddau** | 36 | 2 | 0 | 3 | 5 | 3 |

Roeddem am wybod a oedd unrhyw rwystrau a oedd yn atal pobl rhag gallu gofalu am eu hiechyd corfforol a'u lles.

Nododd y rhan fwyaf o'r bobl y canlynol:

- Dim digon o ofod y tu mewn neu'r tu allan
- Dim digon o staff i oruchwylio
- Dim digon o arian i'r staff gynnal gweithgareddau neu brynu offer

Nododd nifer bach o bobl y canlynol:

- Dim digon o offer
- Anodd cael pobl i ymuno mewn gweithgareddau
- Cydberthnasau gwael rhwng y bobl a'r staff sy'n cynnal y gweithgareddau
- Nid yw'r gweithgareddau neu'r gefnogaeth yn cael eu cynllunio ar amser sy'n gyfleus iddynt.

## Cyfathrebu

Roedd yn galonogol darllen bod y rhan fwyaf o bobl yn CEF Brynbuga eu bod yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith wrth ddefnyddio gwasanaethau'r GIG. Fodd bynnag, dywedodd dau berson wrthym nad oeddent yn gallu gwneud hyn, gan mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

Dywedodd un person wrthym y byddai'n hoffi gwneud ceisiadau cyffredinol yn Gymraeg, ond nad yw'n gallu gwneud hyn oherwydd: *“nid oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yn y GIG nac yn y carchar o gwbl.”*

Dywedodd dau berson wrthym nad oeddent yn teimlo bod eu hanghenion cyfathrebu yn cael eu diwallu yn ystod apwyntiadau. Dywedodd un person wrthym ei fod weithiau yn ei chael hi'n anodd deall yr hyn y mae pobl yn ceisio ei ddweud.

Dywedodd 52 o bobl wrthym fod pethau *“bob amser”* yn cael eu hesbonio iddynt mewn ffordd y gallant ei deall wrth siarad â rhywun yn y GIG. Roedd dwy ran o dair o bobl yn teimlo bod hyn *“fel arfer”* yn wir ac roedd naw person yn teimlo bod hyn *“weithiau”* yn wir.

Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Felly, gwnaethom ofyn *"Wrth siarad gyda rhywun sy'n gweithio i'r GIG, a gewch chi gyfle i gyfrannu cymaint ag yr hoffech at benderfyniadau ynglŷn â'ch gofal a'ch triniaeth?”*

Bob amser: 42

Fel arfer: 37

Weithiau: 15

Byth: 1

## Sylwadau

Gwnaethom ofyn *"Yn eich barn chi, a oes unrhyw beth y mae’r gwasanaeth carchardai yn ei wneud yn arbennig o dda wrth eich helpu i ddefnyddio gwasanaethau’r GIG?”*

Gweler isod grynodeb o'r sylwadau:

*“Mae'r system yn gweithio'n dda hyd at ryw bwynt yma yn CEF Brynbuga, ond mae'n methu pan fyddwch chi'n gofyn am gael gweld meddyg ac, yn y pen draw, yn gweld nyrs, gan fod cyfyngiadau ar y triniaethau y gall nyrs eu darparu, a phan fydd gwir angen i chi weld y meddyg, mae'n rhaid i chi drefnu apwyntiad arall, sef yr hyn wnaethoch chi yn y lle cyntaf"*

*“Mae'r gwasanaeth gofal iechyd yn eithriadol o dda, er bod yr amseroedd aros ar gyfer llawdriniaeth ar fy mhen-glin yn rhy hir”*

*“Bob amser yn barod i helpu”*

*“Mae'r staff ym maes gofal meddwl yn rhoi amser i ni. Rydyn ni'n cael ein trin fel pobl. Mae'n lle diogel lle rwy'n teimlo fy mod yn gallu rhannu fy mhroblemau a fy mhryderon. Rwy'n gwybod bod gwasanaethau eraill yn y carchar ar gael ar gyfer hyn, ond alla i ddim siarad â nhw. Mae'r staff gofal iechyd yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus i siarad yn agored."*

*“Mae'r staff ym Mrynbuga yn wych wrth eu gwaith.”*

*“Nac oes”*

*“Cyfeillgar a chymwynasgar iawn. Dyma'r unig ran o'r carchar sy'n gweithio'n dda iawn"*

Gwnaethom ofyn *"Ydych chi'n teimlo bod unrhyw beth a allai fod yn well wrth eich helpu i ddefnyddio gwasanaethau’r GIG?”*

Gweler isod grynodeb o'r sylwadau:

*“Gweld y person iawn, rydych chi wedi gwneud cais am gael ei weld, h.y., y meddyg, nid y nyrs."*

*“Byddwn i'n hoffi cael sesiynau ychwanegol yn y gampfa wedi'u rhagnodi fel rhan o raglen colli pwysau. Cael bwyd gwell – eto, fel rhan o raglen colli pwysau – nid am fod bwyd y carchar yn wael. Cael dulliau lleddfu poen ar wahân i gyffuriau, h.y. peiriant Tens”*

*“Mae angen i ffurflenni gael eu llenwi'n gynt gan fy mod yn aros i ffurflen gael ei llenwi er mwyn i mi allu mynd i'r gampfa a chymryd rhan mewn chwaraeon. Dyw hyn ddim yn dda gan fy mod yn dioddef o PTSD, felly mae chwaraeon/y gampfa yn help mawr i gadw fy nghyflwr yn sefydlog"*

*“Cael fy ngweld yn gynt gan arbenigwr ar ôl i mi gael fy atgyfeirio. Cael fy atgyfeirio'n gynt yn hytrach na wynebu oedi a thriniaeth aneffeithiol"*

*“Ar ôl dechrau unrhyw fath o driniaeth, fel triniaeth ddeintyddol, byddai'n braf gorffen yr hyn a ddechreuwyd a pheidio â gadael i bethau waethygu."*

*“Mae angen mwy o arian ar y GIG gan y Llywodraeth"*

*“Mae angen i amseroedd apwyntiadau fod yn fwy hyblyg er mwyn ystyried ymrwymiadau eraill"*

*“Esbonio pethau mewn ffordd symlach"*



# Casgliad

Yn gyffredinol, mae'r bobl yn CEF Brynbuga a CEF Prescoed yn cael profiadau cadarnhaol wrth ddefnyddio gwasanaethau'r GIG. Fodd bynnag, mae canfyddiadau'r arolwg hwn wedi tynnu sylw at feysydd i'w gwella, er enghraifft:

- Dewisodd y bobl yn CEF Brynbuga a CEF Prescoed opsiynau amrywiol pan ofynnwyd iddynt pa wasanaethau iechyd a lles oedd ar gael iddynt. Gallai hyn awgrymu bod pobl yn teimlo'n ansicr ynghylch pa wasanaethau y gallant eu defnyddio.

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl fod y bwyd ar y ddau safle yn "wael".

- Roedd pobl yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau i ofalu am eu lles corfforol a meddyliol.

- Dywedodd dau berson o CEF Brynbuga nad oeddent yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith (Cymraeg) am nad oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yno.

# Argymhellion

O ganlyniad i'r ymatebion a gawsom, byddai'r CIC yn ddiolchgar pe bai Tîm Iechyd y Cyhoedd yn ystyried y canlynol:

1) Rhannu adborth cadarnhaol a nodwyd drwy'r adroddiad hwn â'r timau perthnasol.

2) Sicrhau bod pobl ar y ddau safle yn ymwybodol o'r ymyriadau iechyd a lles sydd ar gael iddynt, drwy roi gwybodaeth berthnasol iddynt, a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd.

3) Sicrhau y gall pobl gyfathrebu yn eu dewis iaith. Dywedodd un person wrthym y byddai'n hoffi gwneud ceisiadau cyffredinol yn Gymraeg, ond na allai wneud hyn oherwydd *"nid oes unrhyw siaradwyr Cymraeg yn y GIG nac yn y carchar o gwbl."*

4) Adolygu adborth pobl am y rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar wasanaethau i ofalu am eu llesiant corfforol a meddyliol.

# Diolchiadau

Hoffai’r CIC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i rannu eu barn â ni. Rydym yn gobeithio y bydd yr adborth yn annog gwasanaethau gofal iechyd i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn y maent yn ei wneud yn dda ac yn eu galluogi i weithredu lle y bo angen.

Hoffem hefyd ddiolch i Dîm Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am gydweithio â ni ar gyfer y prosiect hwn.



# Ynglŷn â Chynghorau Iechyd Cymuned (CICau)

CICau yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae CICau yn annog pobl i leisio eu barn am y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, ac yn eu cefnogi i wneud hynny.

Mae CICau yn gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu a chyrff rheoleiddio. Mae CICau yn darparu dolen gyswllt bwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harchwilio a'u rheoleiddio, a'r rhai sy'n eu defnyddio.

Mae CICau yn cael adborth gan y cyhoedd mewn sawl ffordd. Cyn pandemig y coronafeirws, roedd CICau yn ymweld â gwasanaethau'r GIG yn rheolaidd er mwyn clywed gan bobl wrth iddynt gael gofal a thriniaeth.  Roedd CICau hefyd yn clywed gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol a thrwy gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.




Ers pandemig y coronafeirws, mae CICau wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl mewn ffyrdd gwahanol.

Mae hyn yn cynnwys arolygon, apiau, fideogynadleddau a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn clywed gan bobl yn uniongyrchol am eu barn am wasanaethau'r GIG a'u profiadau o'u defnyddio, yn ogystal â thrwy grwpiau cymunedol.

Mae saith CIC yng Nghymru.  Mae pob un ohonynt yn cynrychioli llais “y cleifion a'r cyhoedd” mewn rhan wahanol o Gymru.

# Manylion cyswllt

Aneurin Bevan Community Health Council
Raglan House
William Brown Close
Llantarnam Business Park
Cwmbran
NP44 3AB

01633 838516

Enquiries.AneurinBevanCHC@waleschc.org.uk

www.aneurinbevanchc.nhs.wales

@Bevanchc

CIC Aneurin Bevan CHC

# Canlyniadau'r arolwg o Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

| **Dewis Iaith** | | |
|---|---|---|
| Saesneg | Arall | |
| 63 | 5 | |

| **Rhywedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Menyw/ Merch | Dyn/Bach gen | Anneuaidd | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall | |
| | 92 | 1 | 2 | | |

| **A ydych yn ystyried eich bod yn berson traws?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gen i beidio â dweud | |
| | 92 | | |

| Anrhywiol | Deurywiol | Hoyw | Lesbiaidd | Heterorywiol / Syth | Panrywiol | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | 3 | | 84 | 1 | 2 | |

| **Mis a Blwyddyn geni** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion 1960-90 | Chwe 1960-2001 | Maw 1960-90 | Ebr 1960-76 | Mai 1960-85 | Meh 1960-99 | Gorff 1960-90 | Awst 1960-90 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 4 | 6 | 7 | 7 | 9 | 8 | 7 |
| Medi 1960-84 | Hyd 1960-99 | Tach 1960-95 | Rhag 1960-53 | 1957-99 | | | |
| 5 | 9 | 6 | 9 | 5 | | | |

| **Ethnigrwydd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: | | | | |
| Bangladeshaidd | Tsieineaidd | Indiaidd | Pacistanaidd | Arall |
| | | | | |

| Du neu Ddu Prydeinig: | | |
|---|---|---|
| Affricanaidd | Caribïaidd | Arall |
| | 1 | 1 |

| Gwyn: | | | |
|---|---|---|---|
| Cymreig/Seisnig/Albanaidd/ Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig | Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | Gwyddelig | Arall |
| 85 | 1 | | 2 |

| Grŵp Ethnig arall: | | |
|---|---|---|
| Arabaidd | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall |
| 1 | 1 | |

| **Crefydd neu gred** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaeth | Cristnogaeth | Hindŵaeth | Islam | Iddewiaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | 41 | 1 | 1 | |
| Siciaeth | Anffyddiaeth | Dim Crefydd | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Crefydd neu gred arall |
| | 6 | 27 | 2 | 9 |

| **A ydych yn ystyried bod gennych anabledd?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Heb ateb |
| 26 | 55 | 1 | 8 |

| **A ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi unrhyw gymorth iddo, o ganlyniad i anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gen i beidio â dweud | |
| 17 | 74 | 3 | |

| **A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gen i beidio â dweud | |
| | 84 | 1 | |

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhewch y tabl canlynol er mwyn nodi a fydd y polisi/gweithgaredd

yn cael effaith andwyol, cadarnhaol neu wahaniaethol ar y grwpiau canlynol, neu na fydd unrhyw effaith o gwbl

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | x | | | |
| Anabledd | x | | | Mae holl arolygon y CIC ar gael mewn fformat gwahanol ar gais. |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | X | | | |
| Ailbennu Rhywedd | X | | | |
| Priodas a Phartneriaeth sifil | X | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | x | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Y Gymraeg | | | x | Adroddiadau ac Arolygon wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddwyieithog |
| Ieithoedd eraill | | x | | Gellir cyhoeddi Adroddiadau ac Arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau Dynol | x | | | |
| Lefel tlodi | x | | | |
| Unigolion â dibynyddion | x | | | |
| Poblogaeth wledig | x | | | |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | x | | | |
| Unigolion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg ddigidol | x | | | |

## Asesiad Risg

| |
|---|
| **A oes unrhyw risgiau'n codi wrth roi'r polisi hwn ar waith?**<br>Dd/G |

**Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?**

Dd/G

**Y Gymraeg**

Mae'r ddogfen hon/polisi hwn wedi'i hasesu/asesu yn unol â'n gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer safonau:

i) 37,38
ii) 69,70,71

Wrth benderfynu ar yr effaith, gwnaethom ofyn am gyngor/adolygu tystiolaeth/ystyried y canlynol:

Mae pob dogfen gyhoeddus gan y CIC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r CIC yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.

**Canlyniad**

Effaith gadarnhaol –

Safonau 37, 38 – Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio a'i chyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg

Effaith Negyddol – Dim

# Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.